Arholiadau Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod
Prifysgol Aberystwyth
Chwefror 2025

DAEARYDDIAETH DDYNOL

Amser: 1.5 awr (90 munud)

Dylid rhoi cynnig ar DDAU gwestiwn

---

1. I ba raddau y mae astudio globaleiddio yn berthnasol i gefn gwlad?

2. I ba raddau y mae mapiau bob amser yn dweud celwydd?

3. I ba raddau y mae angen inni ystyried materion grym wrth astudio mudo cyfoes?

4. Sut y gall daearyddiaeth ddynol ein helpu i ddeall a lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd?

5. I ba raddau y mae ffiniau ffisegol a dychmygol yn chwarae rhan wrth lunio hunaniaeth grŵp?

6. I ba raddau y mae angen codi'r gwastad (*level up*) yn y Deyrnas Unedig?

7. Sut mae technolegau clyfar a digidol (e.e. ffonau clyfar a thechnolegau gwisgadwy) yn newid ystyr beth yw bod yn 'fod dynol'?

8. Pa fathau o ddealltwriaeth y gallai daearyddwyr dynol eu cynnig o ran sut mae bwydydd yn cael eu cynhyrchu a'u bwyta?

9. I ba raddau y dylai daearyddwyr dynol ddefnyddio pob un o'r pum synnwyr dynol (gweld, clywed, arogleuo, cyffwrdd, blasu) wrth geisio deall nodweddion penodol lleoedd?

10. Sut y gallai daearyddwyr fynd ati i astudio ieithoedd?